# Bwrdd Cymwysterau Cymru

## Cofnodion Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2023 am 10.15am.

**Bwrdd Cymwysterau Cymru:** David Jones (DBJ) (Cadeirydd), Douglas Blackstock (DB), Julie Brannan (JB), Michael Griffiths (MG), John Latham (JL), Jayne Woods (JW), Hannah Rowan (HR), David W Jones (DWJ), Graham Hudson (GH) a Philip Blaker (PB)

**Yn bresennol:** Alison Standfast (AS), Jo Richards (JR), Emyr George (EG), Cassy Taylor (CT) Ashok Ahir (AA) Catherine English (CE) a Kate Welsher (KW).

**Mynychwyr Allanol:** Ashfan Iqbal (AI), Uwch Swyddog Prosiect, Prosiect Llwybr i'r Bwrdd (eitem 11)

**Ymddiheuriadau:** Anne-Marie Duffy (AMD), Mike Keoghane, Llywodraeth Cymru (MK), Ravi Pawar (RP) a Kerry Price (KP).

### 1. Croeso

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### 2. Cofnodion Bwrdd Cymwysterau Cymru a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022 a Diweddariad ar y Camau Gweithredu

2.1. Cymeradwyodd y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r trafodaethau, yn amodol ar fân newidiadau.

2.2. Adolygodd y Bwrdd y log gweithredu gan nodi bod disgwyl i'r un weithred agored sy'n ymwneud ag Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd gael ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2023.

2.3. Dan faterion yn codi, cadarnhawyd bod yr ymgynghoriad ar y Cynnig Llawn wedi dechrau ym mis Mawrth 2023 yn hytrach na mis Chwefror 2023 fel y cytunwyd yn wreiddiol. Roedd adborth gan ysgolion a cholegau wedi awgrymu y byddai'n heriol ymgymryd â'r ymgynghoriad o ystyried yr amser, a'r gred oedd y byddai ei ohirio fel ei fod yn ymestyn i dymor yr haf yn rhoi mwy o amser i unigolion ymgymryd â'r ymgynghoriad yn effeithiol. Nodwyd y byddai gohirio ymgynghoriad y Cynnig Llawn yn golygu ei fod yn cydredeg â'r ymgynghoriad Lletygarwch ac Arlwyo. Gan nodi bod y ddau ymgynghoriad wedi'u hanelu at wahanol gynulleidfaoedd allanol, byddai'n gosod galwadau mewnol ychwanegol ar y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu a fyddai'n cefnogi'r ddau ymgynghoriad.

Confirmed

2.4. Cadarnhawyd bod yr ymgynghoriad ynglŷn â sicrhau'r cynnig TGAU wedi ei gyhoeddi a bod y ffenestr ymateb wedi ei hymestyn. Eglurwyd bod yr ymgynghoriad wedi'i symleiddio fel ei fod yn canolbwyntio ar gymwysterau TGAU a bod Cymwysterau Cymru wedi ysgrifennu at gyrff dyfarnu perthnasol yn cadarnhau y byddai'n dod i ben mewn pryd i ystyried yr adborth a sicrhau bod y gofynion priodol ar waith yn barod ar gyfer cyhoeddi'r meini prawf cymeradwyo.

**Penderfyniad:**

- **Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022, yn amodol ar fân newidiadau, a nododd y log gweithredu.**

## 3. Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar lafar.

3.2. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr o gyngyfarfod y Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd wedi ystyried argymhellion Adolygiad Halpin (ar Effeithiolrwydd y Bwrdd) mewn perthynas â thelerau swydd aelodau'r Bwrdd. Roedd yr aelodau wedi trafod sut y gallai dyddiadau diwedd eu tymor yn y swydd gael eu gwasgaru er mwyn osgoi nifer fawr o aelodau'r bwrdd yn gadael ar yr un pryd fel a ddigwyddodd yn 2021, pan newidiodd saith o ddeuddeg aelod o'r bwrdd. Cadarnhawyd bod y drafodaeth wedi bod yn gynhyrchiol ac efallai y byddai cynnig ail dymhorau o gyfnodau amrywiol fod yn ateb posibl. Nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn cyfarfod ag aelodau o'r Bwrdd i drafod dewisiadau unigol ar gyfer tymhorau o gyfnodau amrywiol a llunio ffordd ymlaen yn dilyn y trafodaethau hynny.

3.3. Roedd y Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd wedi trafod rhoi cynllun olyniaeth yn ei le, gan nodi pwysigrwydd sicrhau bod gwytnwch yn aelodaeth y Bwrdd, yn enwedig o ran gwybodaeth ac arbenigedd, er mwyn sicrhau lefel briodol o barhad busnes wrth i dymhorau ddod i ben.

3.4. Cadarnhawyd bod y Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi ystyried sawl maes o welliant posibl a amlygwyd gan Adroddiad Halpin a'u hadolygiadau unigol eu hunain. O ganlyniad i'r trafodaethau hynny, roedd y Cadeirydd wedi cytuno i ddosbarthu diweddariad misol i aelodau'r Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gwybod am ddatblygiadau allweddol o bob rhan o'r sefydliad. Awgrymwyd hefyd y byddai diweddariad rheolaidd gan Lywodraethu Corfforaethol yn ddefnyddiol a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn trafod hyn gyda'r Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol.

**Penderfyniad:**

- **Nododd y Bwrdd Adroddiad y Cadeirydd.**

Confirmed

- **Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i drafod cyflwyno briff rheolaidd i'r Bwrdd.**

## 4. Adroddiad y Prif Weithredwr

4.1. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad.

4.2. Gan ddarparu diweddariad byr ar gyllid Cymwysterau Cymru, cadarnhaodd PB fod cyllid craidd Cymwysterau Cymru ar hyn o bryd tua £8.5m gyda thua £1.5m ychwanegol o gyllid prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol. Roedd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar sicrhau'r sefyllfa ariannol hirdymor drwy gyfuno cyllid Cymwys ar gyfer y Dyfodol a'r cyllid craidd, er mwyn cydnabod gwaith diwygio parhaus y tu hwnt i Cymwys ar gyfer y Dyfodol, ac ar gyllidebu'r dyfarniad cyflog blynyddol. Esboniwyd bod dyfarniadau cyflog 2021/22 a 2022/23 wedi eu hariannu gan ddefnyddio tanwariant a bod angen cynnwys darpariaeth wedi ei chostio yng nghyllideb 2023/24. Yn olaf, amlygwyd y byddai gwaith Cymwysterau Cymru'n parhau i dyfu, a nodwyd bod angen am swyddi ychwanegol.

4.3. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi dweud y byddai'n cyfuno cyllid Cymwys ar Gyfer y Dyfodol o £1.5m yn y cyllid craidd ac y byddai dyfarniad cyflog 2023/24 yn cael ei chynnwys fel darpariaeth wedi ei chostio yng nghyllideb 2023/24. Eglurwyd bod cyfuno cyllid y prosiect gyda'r cyllid craidd yn bwysig o ran recriwtio a chadw ac, unwaith y bydd cyfuno'r cyllid wedi'i gadarnhau'n ffurfiol, y byddai'r swyddi Cymwys ar Gyfer y Dyfodol tymor penodol sy'n weddill yn cael eu troi'n swyddi parhaol. Cadarnhawyd hefyd y byddai cyfuno'r cyllid yn galluogi Cymwysterau Cymru i gynnig swyddi'r Rheolwr Cymwysterau a'r Swyddog Cymwysterau sy'n cael eu recriwtio ar hyn o bryd fel penodiadau parhaol yn hytrach na phenodiadau tymor penodol.

4.4. Nodwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r cyllid ar gyfer swyddi ychwanegol, ond y byddai'n adolygu hynny wedi i'r adolygiad o gymwysterau galwedigaethol ddod i ben yn yr haf. Roedd hyn er mwyn galluogi ystyried unrhyw anghenion cyllid ychwanegol a amlygwyd gan yr adolygiad o gymwysterau galwedigaethol.

4.5. Gan ddarparu diweddariad byr ar recriwtio, cadarnhaodd PB fod nifer wedi mynychu'r diwrnod agored a bod Cymwysterau Cymru'n rhagweld cyfradd ymateb dda i'r swyddi gwag a hysbysebwyd.

4.6. Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r sefyllfa ariannu wedi'i diweddaru ac ystyriwyd a oedd unrhyw ddatblygiadau cynnar yn dod i'r amlwg o'r adolygiad o gymwysterau galwedigaethol. Cadarnhawyd bod yr Adolygiad yn ystyried dehongliad y term 'Gwneud-i-Gymru' a bod cyfres o egwyddorion yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol ar y gweill. Nododd y Bwrdd hefyd fod y Cadeirydd, mewn



Confirmed

cyfarfodydd gyda'r Gweinidog, wedi pwysleisio pwysigrwydd cyflwyno'r adolygiad o gymwysterau galwedigaethol mewn pryd.

4.7. Ystyriodd y Bwrdd gyfuno cyllid Cymwys ar gyfer y Dyfodol a'r cyllid Craidd, a oedd disgwyl i waith y prosiect leihau mewn blynyddoedd i ddod, a beth fyddai effaith hynny ar adnoddau a recriwtiwyd yn barhaol i gefnogi'r gwaith. Eglurwyd, gyda mwy o ffocws ar gymwysterau Gwneud-i-Gymru, y byddai diwygiadau pellach a hefyd mwy o alw ar adnoddau yn y Tîm Rheoleiddio, ac felly byddai staff yn cael eu symud rhwng timau i ddiwallu anghenion o ran adnoddau.

4.8. Bu'r Bwrdd yn trafod y tanwariant hanesyddol a'r opsiynau cyllido ar gyfer y swyddi ychwanegol. Fe wnaethant hefyd ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg adnoddau o fewn y Tîm Rheoleiddio. Cadarnhawyd bod y Bwrdd Rheoli, ym mis Ionawr, wedi ystyried ariannu'r swyddi Cymwys ar gyfer y Dyfodol ychwanegol drwy gynyddu lefel y risg sy'n gysylltiedig â thanwariant yn erbyn y gyllideb cyflogau.

4.9. Rhoddodd JR ddiweddariad ar gorff dyfarnu a oedd yn cael trafferthion ariannol mawr. Eglurwyd bod Cymwysterau Cymru wedi cyfarfod â'r ymddiriedolwyr yn ddiweddar, a oedd yn cydnabod y sefyllfa ac wedi mynegi ymrwymiad i sicrhau trosglwyddiad hwylus i ddysgwyr presennol, gan nodi y byddent yn fodlon ildio cydnabyddiaeth yn hytrach na'i dynnu'n ôl. Cadarnhawyd bod Cymwysterau Cymru wedi ysgrifennu at y chwe chanolfan yng Nghymru ynglŷn â throsglwyddo dysgwyr presennol i gorff dyfarnu arall ac y byddai'r corff dyfarnu yn rhoi aseswyr allanol yn eu lle i glirio'r asesiadau sydd wedi pentyrru.

**Penderfyniad:**

- **Nododd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr.**

## 5. Diweddariad ar Cymwys ar gyfer y Dyfodol

5.1. Derbyniodd y Bwrdd ddangosfwrdd Cymwys ar gyfer y Dyfodol.

5.2. Cadarnhaodd EG fod ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol wedi cau ar 16 Rhagfyr a bod nifer dda o ymatebion wedi bod ar draws y chwe chynnig ar hugain. Roedd yr ymatebion wedi'u dadansoddi a'u codio, a daeth y Gweithgor Lefel Pwnc ynghyd eto i archwilio'r themâu oedd yn dod i'r amlwg. Nodwyd bod Cymwysterau Cymru'n parhau i ymgysylltu â CBAC ac unwaith y byddent wedi'u cytuno, byddai gofynion y pynciau'n cael eu rhannu â nhw i hwyluso gwaith datblygu cynnar.

5.3. Cadarnhawyd bod sgôr RAG oren MDPh Iechyd a Lles yn adlewyrchu'r angen posibl i newidiadau sylweddol gael eu gwneud i'r cynnwys a'r asesiadau arfaethedig yn y tri phwnc Iechyd a Lles. Roedd Cymwysterau Cymru yn parhau i weithio gyda chynghorwyr pwnc ac roedd wedi nodi gwelliannau a fyddai'n arwain at gynigion gwell yn y maes hwn.



Confirmed

5.4. Adroddwyd bod TGAU Cymraeg a Saesneg cyfun yn goch i adlewyrchu pryderon ynghylch integreiddio iaith a llenyddiaeth a'r effaith bosib ar staff addysgu a chynnydd dysgwyr. Nodwyd hefyd bod y gwyddorau wedi'u hadrodd fel coch, gan adlewyrchu'r lefel uchel o anghytuno ynghylch yr ystod arfaethedig o bynciau TGAU. Cadarnhawyd y byddai Cymwysterau Cymru yn ystyried y gwahanol opsiynau ar gyfer diwygio TGAU Saesneg, Cymraeg a Gwyddoniaeth ac yn trefnu gweithdy gyda'r Bwrdd i drafod y dewisiadau hyn ymhellach.

5.5. Ystyriodd y Bwrdd y dangosfwrdd a thrafod yr ymatebion a'r safbwyntiau yn ymwneud ag asesiadau di-arholiad. Rhoddodd PB ddiweddariad ar drafodaethau'n ymwneud â datblygu brand cenedlaethol a chadarnhaodd y byddai'r ymgynghoriad yn nodi bod y trafodaethau hynny'n digwydd ac y byddai'n cael ei archwilio ymhellach dros y deunaw mis nesaf, ond ni fyddai unrhyw gynigion yn cael eu cyflwyno.

5.6. Fe wnaeth y Bwrdd gydnabod natur proffil uchel y diwygiadau arfaethedig a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod proses rheoli cyfathrebiadau briodol ar waith i fynd i'r afael â heriau posibl yn gyflym ac yn gadarn. Eglurwyd bod gwrthwynebiad i newid yn aml yn her sylweddol yn y sector addysg ac amlygodd yr angen i wneud y peth iawn weithiau er gwaethaf gwrthwynebiad.

**Penderfyniad:**

- **Nododd y Bwrdd ddangosfwrdd Cymwys ar gyfer y Dyfodol.**

## 6. Cynllun Busnes 2023/24

6.1. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad.

6.2. Wrth gyflwyno'r adroddiad, cadarnhaodd AS ei fod yn rhoi diweddariad ar gynllunio gweithredol ar gyfer 2023/24 a drafft cynnar o'r Cynllun Busnes i alluogi mewnbwn y Bwrdd cyn iddo gael ei gwblhau. Amlinellodd AS y rhesymeg a ddefnyddiwyd wrth lunio'r Cynllun Busnes drafft a'r bwriad o ddarparu cynllun ar gyfer y cyhoedd a oedd yn hawdd ymgysylltu ag ef a'i ddeall.

6.3. Cadarnhawyd, yn dilyn trafodaeth y Bwrdd, y byddai'r Pwyllgor Adnoddau'n mireinio ac yn craffu ar y Cynllun Busnes drafft cyn iddo gael ei ddychwelyd i'r Bwrdd i'w gymeradwyo ym mis Mawrth.

6.4. Ystyriodd y Bwrdd y Cynllun Busnes drafft a chroesawodd y bwrdd y cynnydd hyd yma. Nododd y Bwrdd fod pwysigrwydd sicrhau cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau strategol wedi'i ddiffinio'n glir ac awgrymodd y dylid diwygio'r geiriad o dan Llwybrau i'r Bwrdd i adlewyrchu natur amlsector y prosiect. Awgrymodd y Bwrdd hefyd y dylid adolygu sut i fynegi monitro cymwysterau newydd yn gynnar. Ystyriodd y Bwrdd y posibilrwydd ar gyfer cynnwys mwy o wybodaeth am fentrau lleihau

Confirmed

carbon Cymwysterau Cymru a chytunodd y byddai'r briff a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael ei ddosbarthu i aelodau er gwybodaeth.

**Penderfyniad:**

- **Nododd y Bwrdd ddrafft cynnar y cynllun busnes a darparu adborth arno.**
- **AS i gylchredeg y Briff Lleihau Carbon i aelodau'r Bwrdd.**

## 7. Adolygiad Halpin

7.1. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad.

7.2. Wrth gyflwyno'r adroddiad, eglurodd CE ei fod cyflwyno'r camau i'r Bwrdd oedd wedi eu datblygu mewn ymateb i ganfyddiadau adolygiad effeithiolrwydd diweddar y bwrdd. Nodwyd bod barn y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd wedi ei dderbyn a'i fod wedi llunio datblygiad y cynllun gweithredu arfaethedig. Cafodd y Bwrdd wahoddiad i drafod canfyddiadau'r adroddiad a chytuno ar y cynllun gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r argymhellion.

7.3. Ystyriodd y Bwrdd y cynllun gweithredu a chafodd ei annog i nodi bod canfyddiadau adolygiad Halpin yn cyd-fynd yn agos â chanfyddiadau hunanasesu'r Bwrdd ei hun. Bu'r Bwrdd yn trafod pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r potensial ar gyfer defnyddio Sesiynau Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol i wella amlygrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel Bwrdd.

7.4. Nododd y Bwrdd fod Argymhelliad Blaenoriaeth 5 wedi ei nodi fel un sydd wedi'i gwblhau a thrafodwyd a oedd hyn yn weithred barhaus. Cytunwyd y byddai'r cynllun gweithredu yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r ffaith y byddai'r Bwrdd yn cadw golwg barhaus ar a oedd sefydliadau'n cael eu cynnwys yn briodol.

7.5. Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a chytunwyd y byddai Cymwysterau Cymru'n ceisio mynd ati i ymgysylltu â'r corff newydd ar ôl i'r Prif Weithredwr gael ei benodi. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn ystyried y prif flaenoriaethau trafod yn ddiweddarach.

7.6. Cytunwyd y byddai'r cynllun gweithredu'n cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd ac y byddai'r Cadeirydd yn adrodd yn ôl ar y cynnydd yn unol â'r cynllun gweithredu trwy adroddiad y Cadeirydd.

**Penderfyniad:**

- **Fe wnaeth y Bwrdd ystyried yr argymhellion oedd yn deillio o adolygiad effeithiolrwydd y bwrdd a chytunodd i'r cynllun gweithredu arfaethedig yn amodol ar y gwelliannau a awgrymir.**

## 8. Arolwg Pobl 2022



Confirmed

8.1. Ymunodd KW â'r cyfarfod, a derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad.

8.2. Wrth gyflwyno'r adroddiad, esboniodd KW ei fod yn manylu ar ganlyniadau arolwg gweithwyr 2022 a'r camau corfforaethol arfaethedig a luniwyd mewn ymateb iddynt. Cadarnhawyd bod gan yr arolwg gyfradd ymateb o 93% a bod y mynegai ymgysylltu'n aros yn gyson â'r blynyddoedd blaenorol ar 76%.

8.3. Gan ddarparu trosolwg o'r meysydd allweddol o newid, cadarnhaodd KW fod gwelliannau ar draws y meysydd hynny oedd wedi gweld dirywiad yn y blynyddoedd blaenorol ar y cyfan. Nodwyd bod pum maes wedi gweld dirywiad yng nghanlyniadau 2022, yn enwedig Cyflog a Buddion, a oedd yn ddisgwyliadwy yn ôl KW o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol. Eglurwyd bod dyfarniad cyflog i staff ym mandiau 1 i 6 wedi ei gytuno ym mis Tachwedd 2022 ond nad oedd y wybodaeth yma ar gael i'r holl weithwyr tra bod yr arolwg yn digwydd.

8.4. Cadarnhawyd bod Dysgu a Datblygu yn parhau i fod yr adran â'r sgôr isaf i Cymwysterau Cymru, er gwaethaf gweithgarwch wedi'i dargedu yn y maes hwn, ac y byddai'n parhau i fod yn faes ffocws yn ystod 2023.

8.5. Ystyriodd y Bwrdd yr adroddiad a chroesawu'r canlyniadau positif. Bu'r Bwrdd yn trafod y camau corfforaethol arfaethedig gan nodi ymrwymiad y sefydliad i fynd i'r afael â'r meysydd hynny oedd wedi gweld dirywiad yn y gyfradd foddhad. Nodwyd bod Rheoli Newid wedi bod yn faes lle'r oedd dirywiad yn 2021 a 2022, ac ystyriodd y Bwrdd y rhesymau posibl dros hyn.

8.6. Trafododd y Bwrdd yr ymatebion i'r cwestiwn ar fwlio, gwahaniaethu, ac aflonyddu, gan nodi bod 3% o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod wedi profi'r ymddygiad hwn yn ystod y deuddeng mis diwethaf. Eglurwyd nad oedd y cwestiynau dilynol wedi dilyn unrhyw batrwm o ran ymatebion cadarnhaol ac nad oedden nhw i gyd wedi dod o un gyfarwyddiaeth neu dîm. Nodwyd nad oedd unrhyw achosion wedi eu cofnodi'n ffurfiol yn ystod 2022 a bod y cwmni ymchwil oedd wedi cynnal yr arolwg ddim o'r farn bod unrhyw bryderon sylweddol oedd angen tynnu sylw atynt.

8.7. Nododd y Bwrdd yr ymatebion i'r cwestiwn ar ddeall rôl y Bwrdd a'i bwyllgorau a thrafod ffyrdd o wella ymwybyddiaeth staff. Cadarnhawyd bod staff wedi derbyn diweddariad ar drafodaethau yn Neuadd y Dref yn dilyn cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor, a bod lle i gynnwys sesiwn gyda'r Cadeirydd yn ystod diwrnod cwrdd i ffwrdd i'r staff i gyd ym mis Mawrth. Nododd y Bwrdd y mentrau sydd eisoes ar waith i wella ymwybyddiaeth staff o waith y Bwrdd a'i bwyllgorau.

8.8. Diolchodd y Bwrdd i'r tîm Adnoddau Dynol am yr adroddiad cadarnhaol, a gadawodd KW y cyfarfod.

**Penderfyniad:**



Confirmed

- **Nododd y Bwrdd ganlyniadau arolwg pobl 2022 a'r camau corfforaethol arfaethedig.**

## 9. Cynllun Gweithredol ac Adroddiad Cyllid

9.1. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiadau.

9.2. Wrth gyflwyno adroddiad Cynnydd y Cynllun Gweithredol, eglurodd CE ei fod yn rhoi diweddariad ar y cynnydd yn unol â Chynllun Gweithredol 2022/23 hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2022. Cadarnhawyd, fel ar ddiwedd Rhagfyr, bod pob un o'r pump o'r blaenoriaethau gweithredol wedi'u graddio'n wyrdd, adroddwyd bod pedair is-flaenoriaeth yn oren, a deunaw llinell dasg naill ai'n oren neu'n goch. Nodwyd y byddai'r Bwrdd Rheoli'n parhau i fonitro Cynllun Gweithredol 2022/23, a byddai Cynllun Gweithredol 2023/24 yn cael ei gwblhau mewn pryd i'r Bwrdd ei gymeradwyo ym mis Mawrth.

9.3. Bu'r Bwrdd yn ystyried yr adroddiad gan nodi'r heriau o ddarparu adnoddau o fewn y Tîm Rheoleiddio. Cadarnhawyd bod trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru o amgylch yr angen i benodi Cymwysterau Cymru fel y rheoleiddiwr priodol ar gyfer manylebau addasu rhesymol. Eglurwyd y dylai'r swyddogaeth hon fod wedi ei phasio i Cymwysterau Cymru pan gafodd ei sefydlu ond ni ddigwyddodd hyn. Nodwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni'r rôl yn ffurfiol gyda chymorth gan Cymwysterau Cymru.

9.4. Cadarnhaodd AD fod Cadeiryddion y Pwyllgor Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i fod i gyfarfod ym mis Chwefror i ystyried sut y caiff y Cynllun Gweithredol ei adrodd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau ac a oedd unrhyw gyfle i symleiddio'r broses.

9.5. Gan ddarparu trosolwg byr o'r Diweddariad Cyllid, cadarnhaodd AS bod Cymwysterau Cymru'n rhagweld cyfanswm gwariant o £9.795m yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £9.908m. Byddai hyn yn creu tanwariant o £113k, gyda £163k o'r gwariant sy'n weddill wedi'i nodi'n amrywiol. Nodwyd bod y gwariant amrywiol yn gysylltiedig yn bennaf â grantiau, costau rhedeg a phrosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol a bod y rhagolwg cyffredinol yn debygol o leihau ymhellach. Cadarnhawyd bod disgwyl i'r gwariant ddiwedd Ionawr fod tua £7.5m, gan adael gwariant o oddeutu £2.2m yn weddill yn ystod deufis olaf y flwyddyn ariannol. Roedd hyn yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

9.6. Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar gynlluniau ariannol 2023/24 gan nodi bod adolygiad terfynol o gyflwyniadau'r gyllideb ar y gweill i sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Gweithredol.

**Penderfyniad:**



Confirmed

- **Nododd y Bwrdd Adroddiad Cynnydd y Cynllun Gweithredol a'r Diweddariad Ariannol er gwybodaeth.**

## 10. Adroddiad Rheoli Risg a Chofrestr Risg Sefydliadol

10.1. Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad.

10.2. Wrth gyflwyno'r adroddiad, esboniodd CE ei fod yn rhoi trosolwg i'r Bwrdd o'r risgiau sefydliadol oedd â sgôr risg gweddilliol o ddeuddeg ac uwch ar hyn o bryd. Cadarnhawyd, ers yr adroddiad diwethaf, fod sgôr risg gweddilliol chwe risg wedi lleihau, bod un risg wedi cynyddu, ac nad oedd unrhyw risgiau wedi'u hychwanegu na'u tynnu o'r gofrestr.

10.3. Adolygodd y Bwrdd y gofrestr, a chadarnhawyd, yn unol ag awgrym yn Adroddiad Halpin, y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cynnal adolygiad o lefel y trothwy lle mae risgiau'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd. Gan nodi'r sgôr trothwy presennol o 12 ac uwch, awgrymodd PB y gallai defnyddio sgôr trothwy o 9 arwain at yr adroddiad yn mynd yn rhy weithredol. Ar y llaw arall, gallai defnyddio sgôr trothwy o 15 fethu â darparu'r lefel gywir o oruchwyliaeth strategol. Teimlai'r Bwrdd fod y trothwy presennol yn briodol, a bod yr adroddiad ategol yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at newidiadau yn y sgoriau risg, ond eu bod yn edrych ymlaen at dderbyn canlyniadau'r adolygiad arfaethedig.

**Penderfyniad:**

- **Nododd y Bwrdd yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 11. Diweddariad y Prosiect Llwybr i'r Bwrdd

11.1. Croesawodd y Bwrdd Ashfan Iqbal, Uwch Swyddog y Prosiect Llwybr i'r Bwrdd i'r cyfarfod. Wrth gyflwyno'r diweddariad, esboniodd y Cadeirydd mai nod y prosiect oedd helpu unigolion o gymunedau ethnig lleiafrifol i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddod yn aelodau effeithiol o'r bwrdd. Cadarnhawyd bod Cymwysterau Cymru wedi cefnogi carfan gyntaf y prosiect a bod aelodau'r bwrdd wedi gweithredu fel mentoriaid i bedwar o bobl oedd wedi cymryd rhan yn y prosiect.

11.2. Rhoddodd AI drosolwg o'r prosiect a diweddariad ar y garfan gyntaf o gyfranogwyr. Cadarnhawyd bod rhaglen hyfforddi'r garfan gyntaf wedi dod i ben bellach, a bod tri o'r pymtheg unigolyn a gymerodd ran, wedi llwyddo i sicrhau swyddi ar fyrddau lleol. Er bod newid i reolaeth y prosiect yn golygu nad oedd adborth penodol ar gael yn ymwneud â'r garfan gyntaf, eglurwyd bod adolygiad o'r rhaglen hyfforddi wedi digwydd a bod nifer o welliannau wedi'u rhoi ar waith yn barod ar gyfer yr ail garfan oedd i fod i ddechrau ym mis Mawrth.

Confirmed

11.3. Ystyriodd y Bwrdd sut y gallai gefnogi ail garfan y prosiect a nodi, pan fyddai'n mentora cyfranogwyr, y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o gyfathrebu gan dîm y prosiect ynghyd â gweld y cynllun hyfforddi ac unrhyw ddogfennau ategol. Bu aelodau'r bwrdd yn myfyrio ar eu profiadau yn mentora unigolion o'r garfan gyntaf ac awgrymwyd ffyrdd y gallai mentoriaid gael eu paru'n well â chyfranogwyr er mwyn sicrhau'r effeithiolrwydd gorau yn y sesiynau hynny.

11.4. Mynegodd y Bwrdd ei ymrwymiad i gefnogi'r prosiect Llwybr i'r Bwrdd ac roedd yn edrych ymlaen at gefnogi'r garfan newydd o gyfranogwyr.

## 12. Rhagolwg

12.1. Adolygodd a nododd y Bwrdd y Rhagolwg.

## 13. Unrhyw fater arall

13.1. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu, ac i staff oedd wedi cyflwyno papurau, a chadarnhau nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 15.00**

Confirmed